



YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH



• Cymreictod • Parchu ein gilydd • Gwneud ein gorau glas •

[ysgolgybraeg.cymru](http://ysgolgybraeg.cymru)



### Parod. Parchus. Diogel

Mae'n bosib y byddwch wedi clywed y tri gair uchod gan eich plant adref ers dechrau'r tymor. Wrth barhau gyda 'When the adults change' rydyn ni'n annog y disgyblion i fod yn **barod**, yn **barchus**, ac yn **ddiogel** yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn dair rheol bwysig iawn i sicrhau fod pawb yn cael mynediad at addysg ac yn cael y cyfle i wneud eu gorau glas yn y gwersi.

### Ready. Respectful. Safe

*You may have heard the three words above from your children at home since the start of the term. As part of continuing with 'When the Adults Change', we are encouraging pupils to be **ready**, **respectful**, and **safe** during their time at school. These are three very important rules to ensure that everyone has access to education and has the opportunity to do their very best in lessons.*

### Darllen Co.

Mae'r ysgol wrthi yn cofrestru disgyblion a gosod dosbarthiadau ar gyfer bod yn rhan o Darllen Co sef adnodd arlein ar gyfer cefnogi darllen disgyblion. (Mae'n bosib y byddwch wedi sylwi ar fanylion mewngofnodi yng nghyfrif e-bost Hwb eich plentyn yn ystod y diwrnodau diwethaf)

Bydd yr athrawon yn derbyn hyfforddiant wythnos nesaf, felly ein gobaith yw i rannu mwy o wybodaeth gyda chi maes o law ynghylch mewngofnodi a'r defnydd ohono.

Rydym yn ddiolchgar i Adran Addysg Ceredigion am ariannu Darllen Co. i bob ysgol.

### Darllen Co. (Darllen = Reading)

*The school is currently registering pupils and setting up classes to take part in Darllen Co, which is an online resource designed to support pupils' reading. (You may have noticed login details in your child's Hwb email account over the past few days.)*

*Teachers will be receiving training next week, so we will share more information with you in due course regarding logging in and how to use.*

*We are grateful to the Ceredigion Education Department for funding Darllen Co for every school.*



### Ymweliad thematig

Bydd ymwelydd o Estyn yn yr ysgol fore dydd Llun y 19<sup>eg</sup> o Ionawr ar gyfer casglu gwybodaeth am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r Ysgol Gymraeg yn un o 32 o ysgolion a fydd yn cyfrannu at yr adroddiad. Bydd yn ymweld â dosbarthiadau ac yn trafod gyda grwpiau bach o ddisgyblion.

### Thematic visit

*An Estyn visitor will be in school on the morning of Monday 19th January to gather information about Relationships and Sexuality Education. The Welsh-medium school is one of 32 schools that will contribute to the report. The visitor will be visiting classes and talking with small groups of pupils.*

### Gwisg ysgol

Hoffwn eich hatgoffa o'r angen i wisgo gwisg ysgol pob dydd os gwelwch yn dda. Roedd hi'n braf gweld cynifer yn eu siwmperi Nadolig lliwgar yn ystod mis Rhagfyr, ond nawr ein bod nôl ar ddechrau tymor newydd, dyma'ch hatgoffa'n garedig i ailgydio yn y rheol hon o ddiatri.

### School uniform

*We would like to remind parents and carers that pupils are expected to wear school uniform every day. While it was a pleasure to see the festive Christmas jumpers worn during December, we now ask that all pupils return to school uniform as we start the new term.*





23/01/2026

## Disgo Santes Dwynwen

Cofiwch am Ddisgo Dwynwen wythnos nesaf!  
Dyma'r manylion unwaith eto:

Bydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn cynnal Disgo Santes Dwynwen yn Neuadd yr Ysgol ar y 23ain o Ionawr, rhwng 2:15 a 4:30yp.

Bydd disgo plant y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn digwydd yn ystod oriau ysgol.  
Bydd disgo plant blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn cychwyn am 3:30 ac yn gorffen am 4:30yp.  
Does dim angen i rieni fynychu. Pris £2 y plentyn.

## Dwynwen's Disco

Here's a reminder of the details for Dwynwen's Disco next week:

The Parent and Teacher Association are organising a Santes Dwynwen Disco in the School Hall on the 23rd of January, between 2:15 and 4:30pm.

The disco for Nursery, Reception, Year 1 and Year 2 children will take place during school hours.  
The disco for children in Years 3, 4, 5 and 6 will start at 3:30 and finish at 4:30pm  
Parents do not need to attend. Entry £2 per child.




## Parêd a Thwmpath Santes Dwynwen

Mae gwahoddiad i bawb ymuno â ni yn y parêd ar ddydd Sadwrn 24<sup>ain</sup> o Ionawr, am 1:45 ger y cloc. Gweler y poster ar waelod y llythyr hwn ar gyfer darllen y manylion yn llawn.

## Santes Dwynwen Twmpath and Parade

Everyone is warmly invited to join us in the parade on Saturday 24<sup>th</sup> January, meeting at 1:45pm by the clock. Please see the poster at the end of this letter for full details.



## Pont Teithio Llesol Plascrug


Mae'r ymgynghoriad ynghylch pont newydd ar agor tan Chwefror 25<sup>ain</sup> eleni. Ga i'ch hannog chi i rannu eich barn ynghylch yr opsiynau os gwelwch yn dda.

Gellir gweld rhagor o fanylion am y cynigion a'r digwyddiad ymgynghori hwn ar wefan y Cyngor:  
[Cynllun Pont Plascrug - Cyngor Sir Ceredigion](#)

## Plascrug Active Travel Bridge

The consultation regarding the new bridge is open until 25th February this year. I would encourage you to share your views on the proposed options, please.

Further details of the proposals and this consultation event can be viewed on the Council's website: [Plascrug Bridge Scheme - Ceredigion County Council](#)



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## Half term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.

### Dyddiadau pwysig i ddod:

- Diwrnod Eisteddfod Ysgol : Chwefror 13<sup>eg</sup>
- Diwrnod cau H.M.S : Mawrth 6<sup>ed</sup>
- Eisteddfod Gylch : Mawrth 25<sup>ain</sup>
- Eisteddfod Rhanbarth : Ebrill 18<sup>fed</sup>

### Upcoming important dates:

- School Eisteddfod : February 13<sup>th</sup>
- I.N.S.E.T school closure day : March 6<sup>th</sup>
- Area Eisteddfod : March 25<sup>th</sup>
- County Eisteddfod : April 18<sup>th</sup>

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.  
If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth / Headteacher

16/01/2026

[www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)

**PARÈD A THWMPATH  
SANTES DWYNWEN  
TWMPATH AND PARADE  
24/1/26 2PM**

Parèd / Parade : top y dre' / top of town

**CROESO i BAWB!!! / ALL WELCOME!!!  
DEWCH i DDATHLU YN EICH LLIWIAU LLACHAR!!!  
JOIN US TO CELEBRATE IN YOUR BRIGHTEST COLOURS!!!**

**TWMPATH:  
BANDSTAND**  
Ar ôl y Parèd / After the Parade

Funded by UK Government  
West of Arannau (gan Llywodraeth y DU)

Cyngor Sir CEREDIGION  
County Council

CYNGOR TRAF  
ABERYSTWYTH  
TOWN COUNCIL

GWYL  
CARIAD  
20  
25

CYMRU Y CARDI  
Welsh Community Card

**EISTEDDFODAU RHANBARTH  
CEREDIGION**

Eisteddfodau	Dyddiad Date	Lleoliad Location
Eisteddfod Offerynnol	26-02-2026	Ysgol Dyffryn Aeron
Eisteddfod Uwchradd	10-03-2026	Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
Eisteddfod Ddawns a Theatr	18-03-2026	Ysgol Bro Teifi
Eisteddfod Cylch Teifi	23-03-2026	Ysgol Uwchradd Aberteifi
Eisteddfod Cylch Aeron	24-03-2026	Ysgol Henry Richard
Eisteddfod Cylch Ystwyth	25-03-2026	Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
Eisteddfod Cynradd	18-04-2026	Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

Dyddiadau Cau Cofrestru Cenedlaethol/National Deadlines:

26/01/26 Dawns & Offerynnol / Dance and Instrumental  
09/02/26 Cyst. Llyfyan & Maes / Stage Competitions  
02/03/26 Cyst. 19-25 oed + Gwaith Cartref + Eisteddfod T / 19-25 yr. old comps. + homework + Eisteddfod T

Urdd Ceredigion @urddceredigion urdd.cymru

**THE ROYAL MINT MUSEUM**

**CYSTADLEUAETH  
STORI FER**

**CYFLE EURAIDD I AWDURON IFANC!**

Rydym yn awyddus i blant **7-11 oed** ysgrifennu stori am **AUR** (hyd at **500 gair**). Bydd yr enillydd yn cael **darn aur** a **£5,000** ar gyfer ei ysgol neu ei lyfrgell, a bydd y **stori'n cael ei darlunio** gan arlunydd.

Gellir cyflwyno straeon rhwng **16 Chwefror** ac **17 Ebrill 2026**.

[www.royalmintmuseum.org.uk](http://www.royalmintmuseum.org.uk)  
[storycompetition@royalmintmuseum.org.uk](mailto:storycompetition@royalmintmuseum.org.uk)

**THE ROYAL MINT MUSEUM**

**SHORT STORY  
COMPETITION**

**A GOLDEN OPPORTUNITY FOR YOUNG WRITERS!**

We are asking **7-11-years-olds** to write a story about **GOLD** using no more than **500-words**. The winner will receive a **gold coin**, **£5,000** for their school or local library, and their **story illustrated** by an artist.

Stories can be submitted between **16 February - 17 April 2026**.

[www.royalmintmuseum.org.uk](http://www.royalmintmuseum.org.uk)  
[storycompetition@royalmintmuseum.org.uk](mailto:storycompetition@royalmintmuseum.org.uk)